# Cerddi cwsg y Ficer Rhys Prichard

Dewi S. Alter

*Prifysgol Caerdydd / DIAS*

**Crynodeb:** Mae'r erthygl hon yn archwilio'r ystyriaethau ynghylch cwsg mewn llenyddiaeth Gymraeg gan ddadansoddi cerddi poblogaidd y Ficer Rhys Prichard (1579–1644).[1] Dadansoddir ystyriaethau crefyddol a diwylliannol ynghylch cwsg fel y'u ceir yng ngherddi'r Ficer. Manylir ar brif nodweddion cerddi cwsg y Ficer a chawn gipolwg ar sut roedd rhai pobl yn cysgu, neu sut yr oedd y Ficer yn credu neu'n dymuno eu bod yn cysgu. O ganlyniad, dengys yr erthygl hon bwysigrwydd cwsg yn y cyfnod a bod pobl yn ei gymryd o ddifri. Wrth wneud hyn, pwysleisir y dylid cofio mai *pobl go iawn, o gig a gwaed*, a astudir, ac er eu bod yn bodoli mewn testunau yn unig o'n safbwynt ni, dylid eu trin fel bodau dynol a oedd, yng nghyd-destun yr erthygl hon, yn cysgu.

**Allweddeiriau**: Cwsg, Y Ficer Prichard, llenyddiaeth Gymraeg, yr ail ganrif ar bymtheg, Cristnogaeth; Protestaniaeth, duwioldeb, y cyfnod modern cynnar.

## Vicar Rhys Prichard's sleep poems

**Summary:** This article surveys the considerations regarding sleep in Welsh literature by analysing the popular poems of Vicar Rhys Prichard (1579–1644). Religious and cultural considerations regarding sleep, as found in the Vicar's poems, are analysed. The main characteristics of the Vicar's sleep poems are identified, and we gain an insight into how some people slept, or how the Vicar believed or wished them to sleep. As a result, the article shows the importance of sleep during the period and that people took it seriously. In doing so, it is emphasized that it should be remembered that *real people, of flesh and blood*, are studied, and although they only exist in texts from our point of view, they should be treated as human beings that, in the context of this article, slept.

**Keywords**: Sleep, Vicar Prichard, Welsh literature, the seventeenth century, Christianity, Protestantism, piety, the early modern period.

[1] Cwblhawyd yr ymchwil yn rhannol gyda chefnogaeth Ymddiriedolaeth Sir John Plumb.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

Gellir dweud yn hyderus bod cwsg yn rhan hanfodol o fywyd beunyddiol. Dyma fydd yr astudiaeth gyntaf o gwsg fel ffenomen ddiwylliannol a chymdeithasol yng Nghymru.[2] Astudiaeth achos yw'r erthygl hon, yn dechrau trafodaeth ar ystyriaethau ynghylch cwsg yn llenyddiaeth Gymraeg y cyfnod modern cynnar gan ddadansoddi cerddi poblogaidd y Ficer Rhys Prichard (1579–1644).[3] Cynigir astudiaeth achos o un bardd, o un rhan o Gymru, a ddaeth yn boblogaidd iawn yn sgil argraffu ei waith yng nghanol yr ail ganrif ar bymtheg. Bydd yr erthygl yn archwilio cerddi cwsg y Ficer, sef: 'Rhybydd i Ddyn feddwl am Dduw y bore, ac i roddi diolch iddo, am ei gadw'r nôs rhag niwed';[4] 'Diolch foreuol pan ddihuner gynta';[5] 'Diolch i Grist am amddiffyniad ac esmwythder';[6] 'Pethau iw hystyried, a'i harferu pan ddêl y nôs';[7] 'Hymn iw chanu i Dduw cyn mynd i gysgu';[8] 'Gweddi wrth fynd ir gwely';[9] 'Myfyrdod pan dihuner o gysgu ganol nôs';[10] 'Y môdd y dlye ddyn grassol ddeffro ei gorph ai enaid genol nôs i glodfori Duw'.[11]

Wrth astudio cwsg yn y cerddi hyn, datblygir dealltwriaeth ynghylch bywydau beunyddiol yng Nghymru'r cyfnod modern cynnar; mewn gwirionedd, mae yna fwlch sylweddol yn ein gwybodaeth o ran sut yr oedd pobl yn byw a bod yng Nghymru ar y pryd ac mae astudiaeth o gwsg yn gallu taflu goleuni ar hynny. Caiff ystyriaethau crefyddol a diwylliannol ynghylch cwsg, fel y'u ceir yng ngherddi'r Ficer, eu dadansoddi, ac wrth wneud hynny, amlinellir prif nodweddion ei gerddi cwsg a chawn gipolwg ar sut roedd rhai pobl yn cysgu, neu sut yr oedd y Ficer yn credu neu'n dymuno eu bod yn cysgu. Wrth gysylltu'r cerddi ag astudiaethau ehangach ar gwsg, yn arbennig yn Lloegr yn y cyfnod modern cynnar, datblygir dealltwriaeth o ddiwylliant cwsg ym Mhrydain; gwelwn fod cwsg yn bwysig iawn yn ystod y cyfnod hwnnw. Wrth astudio cwsg, bydd yr erthygl hon hefyd yn cyflwyno safbwyntiau'r dyniaethau meddygol i'r Gymraeg, yn benodol ynghylch y berthynas rhwng cwsg ac iechyd meddwl. Wrth wneud hyn, pwysleisir y dylid cofio mai *pobl go iawn, o gig a gwaed* a astudir; er eu bod yn bodoli mewn testunau yn unig o'n safbwynt ni, dadleua'r erthygl mai un ffordd o wneud hyn yw drwy ystyried cwsg.

---

[2] Mae astudiaeth ar freuddwydion mewn llenyddiaeth Gymraeg i'w gweld yn Xiezhen Zhao, 'Dreams in Medieval Welsh Literature', Traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd, 2021.

[3] Daw'r dyfyniadau o argraffiad 1681: Stephen Hughes (gol.), *Canwyll y Cymru, sef, gwaith Mr. Rees Prichard, gynt ficcer Llanddyfri, a brintiwydd or blaen yn bedair rhan, wedi ei cyssylltu oll ynghyd yn un llyfr* (Llundain: Thomas Dawks), oherwydd yn ôl Siwan Non Richards dyma'r testun sy'n 'adlewyrchu orau y testun llafar gwreiddiol', Siwan Non Richards (1994), *Y Ficer Prichard*, Cyfres Llên y Llenor (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn). Wrth ddyfynnu o'r gwreiddiol cedwir yr italeiddio a'r orgraff fel y mae ac eithrio 'f' sydd wedi'i newid yn 's'.

[4] *Canwyll*, tt. 119–21.

[5] Ibid., tt. 121–2.

[6] Ibid., t. 122.

[7] Ibid., tt. 251–3.

[8] Ibid., tt. 253–4.

[9] Ibid., tt. 255–8.

[10] Ibid., tt. 258–9.

[11] Ibid., tt. 260–1.

Mae'n ddigon hysbys, ys dywed Geraint H. Jenkins, mai'r 'canu crefyddol mwyaf poblogaidd yn y cyfnod hwn oedd cynghorion moesol a duwiol y Ficer Rhys Prichard'.[12] O ystyried poblogrwydd gwaith y Ficer, mae'n rhyfedd nad yw ysgolheigion Cymreig wedi mynd ati i ddadansoddi ei waith yn gyson. Yr astudiaeth fanwl gyntaf ohono oedd cyfrol D. Gwenallt Jones, *Y Ficer Prichard a 'Canwyll y Cymry'*, a oedd yn dathlu trichanmlwyddiant ei farw yn 1946.[13] Prin oedd y sylw a roddwyd i'w waith am hanner canrif arall wedi hynny; cafwyd ambell ymdriniaeth yn ystod y 1990au, ond ar ôl hynny rhoddwyd cannwyll y Ficer yn ôl dan ddysgl.[14] Prif elfennau trafodaethau Nesta Lloyd a Siwan Non Richards yw'r cysylltiad rhwng iaith ac arddull y Ficer a'i gynulleidfa, tra bo John Gwynfor Jones yn canolbwyntio ar y cyd-destun cymdeithasol, gwleidyddol a chrefyddol a'i ymateb i ddigwyddiadau penodol.[15] Yn 1995, amlygodd Nesta Lloyd ddyled y Ficer i'r *Ymarfer o Dduwioldeb*, sef cyfieithiad Rowland Vaughan o gyfrol ddefosiynol ddylanwadol a phoblogaidd Lewis Bayly a gyhoeddwyd yn 1630. Bydd yr erthygl hon yn ehangu ar ddadl Lloyd sy'n honni i'r Ficer sicrhau bod cynnwys y gyfrol honno ar gael i gynulleidfa werinol mewn gwisg ddiwylliannol gyfarwydd, sef barddoniaeth.[16] Yn wir, dangosir yma y gellid dadlau mai mydryddiad o'r *Ymarfer o Dduwioldeb* yw sawl cerdd yn *Canwyll y Cymru*.

## Cwsg yn y cyfnod modern cynnar

*Sleep in Early Modern England* gan Sasha Handley yw'r brif astudiaeth ar gwsg yn Lloegr yn y cyfnod modern cynnar.[17] Un o'r prif ddadleuon yw bod ystyriaethau ynghylch cwsg yn cael eu pennu'n syncronig, ac felly gallent amrywio o gyfnod i gyfnod. Ond dylid nodi bod cwsg yn aros yn naturiol ac yn hanfodol ym mhob oes. Ceir golwg amrywiol ar gwsg gan Handley wrth iddi archwilio ei arwyddocâd diwylliannol a chrefyddol ynghyd â sut roedd yn broses ddefosiynol, gorfforol a seicolegol gan amrywio o berson i berson. Mae ei chasgliadau'n dangos bod elfennau cyffredin bywyd, gan gynnwys cwsg, wedi eu hydreiddio ag arwyddocâd emosiynol, ysbrydol a diwylliannol. Dylid nodi ei bod yn canolbwyntio ar bobl fonheddig, ac mae Handley yn cydnabod bod hyn yn cynnig golwg ar gwsg

[12] Geraint H. Jenkins (1995), 'Llenyddiaeth, Crefydd a'r Gymdeithas yng Nghymru', yn Rees, W. J. (gol.), *Y Meddwl Cymreig* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 122–41 (134).

[13] D. Gwenallt Jones (1946), *Y Ficer Prichard a 'Canwyll y Cymry'* (Caernarfon: Cwmni'r Llan a Gwasg yr Eglwys yng Nghymru).

[14] Yn y cyfnod hwn cyhoeddwyd sawl testun ar waith y Ficer, gan gynnwys Nesta Lloyd (gol.) (1994), 'Rhagymadrodd', *Cerddi'r Ficer: Detholiad o Gerddi Rhys Prichard* (Llandybïe: Cyhoeddiadau Barddas); Nesta Lloyd (1996), 'Sylwadau ar iaith rhai o gerddi Rhys Prichard', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 29(3), 257–80; John Gwynfor Jones (1994), 'Y Ficer Prichard (1579–1644): ei gefndir a'i gyfraniad i'w gymdeithas', *Y Traethodydd*, 149/633, 235–52; Siwan Non Richards (1994), *Y Ficer Prichard*. Cyhoeddwyd hefyd gyfrol Saesneg: R. Brinley Jones (1994), *'A lanterne to their feete': Remembering Rhys Prichard 1579–1644: Vicar of Llandovery* (Llanwrda: Drovers Press).

[15] Lloyd, 'Sylwadau ar iaith rhai o gerddi Rhys Prichard'; Richards, *Y Ficer Prichard*; Jones, 'Y Ficer Prichard'.

[16] Nesta Lloyd (1995), '"Yr Ymarfer o Dduwioldeb" a rhai o gerddi Rhys Prichard', *Y Traethodydd*, 150/634, 94–106 (97–8).

[17] Sasha Handley (2016), *Sleep in Early Modern England* (New Haven and London: Yale University Press).

ymhlith haen arbennig o'r boblogaeth; o ganlyniad, nid yw'r astudiaeth yn cynnig golwg cynhwysfawr ar arferion cwsg yn Lloegr. Bydd yr erthygl hon yn tynnu ar yr astudiaeth honno wrth archwilio cerddi cwsg y Ficer, gan ddangos dimensiwn crefyddol cryf cwsg yn y cyfnod modern cynnar. Wrth ychwanegu safbwynt Cymreig, gellir datblygu astudiaethau ar gwsg ym Mhrydain a chymharu cenhedloedd yr ynys â'i gilydd gyda golwg cymharol ar gwsg.

Yn ein dydd ni, yn gyffredinol, mae pobl yn cysgu trwy'r nos. Ond nid felly y bu erioed, mae'n debyg; mae ymchwil Roger Ekirch ar y nos yn Ewrop cyn y cyfnod modern yn awgrymu i bobl gysgu mewn dwy ran yn ystod y nos.[18] Yn ôl Ekirch, byddai pobl yn mynd i gysgu rhwng 9 a 10 o'r gloch, ac yn cysgu am ychydig oriau cyn dihuno tua chanol nos am awr neu fwy a gwneud hynny'n naturiol. Yn ystod y cyfnod hwn o fod yn effro, dywed y byddai pobl yn cyflawni amryw dasgau – byddent yn glanhau, gweddïo, myfyrio, bragu cwrw, a chael rhyw ymhlith pethau eraill; ymddengys hefyd i nifer beidio â gwneud rhyw lawer yn ystod y cyfnod o huno. Yn ôl Ekirch, mae'r cyfeiriadau niferus at ddau gwsg ('two-sleeps') mewn testunau amrywiol ar draws Ewrop cyn y cyfnod modern yn awgrymu bod hyn yn norm cyffredinol ac iddo wreiddiau cynhanesyddol. Mae Sasha Handley a Craig Koslofsky wedi datblygu'r drafodaeth hon gan ddwyn rhagor o gyfeiriadau at gwsg cyntaf ac ail gwsg i'r amlwg.[19]

Ond beth am gerddi'r Ficer? O safbwynt codi ganol nos, gellid dadlau bod y gerdd 'Diolch i Grist am amddiffyniad ac esmwythder' yn awgrymu nad yw codi yn y nos yn ddymunol, ond nid yw'n amlwg a ystyria hynny'n naturiol ai peidio. Canys ymhlith y pethau y mae llefarydd y gerdd yn ddiolchgar amdanynt y mae'r ffaith na ddaeth 'anhunedd im dihuno'.[20] Efallai nad yw codi ganol nos yn ddymunol, ac y dylid bod yn ddiolchgar am gysgu drwy'r nos heb orfod codi yng nghanol y nos. Fodd bynnag, gall 'anhunedd' fod yn gyfeiriad at ddiffyg cwsg yn ystod y ddwy ran pan fyddai pobl fel arfer yn cysgu. O ganlyniad, nid yw'r gerdd yn tanseilio'r ddamcaniaeth gyffredinol am ddau gwsg.

Mae gan y Ficer ddwy gerdd arall yn ymwneud â chodi ganol nos sy'n awgrymu ei fod yn arfer naturiol. Teitl y gerdd gyntaf yw 'Myfyrdod pan dihuner o gysgu ganol nôs'.[21] Mae teitl y gerdd yn awgrymu bod y Ficer yn cymryd yn ganiataol fod pobl yn codi yn y nos ac felly mae'n llunio myfyrdod iddynt ar gyfer y cyfnod hwn o fod yn effro. Yn y gerdd, y ffocws drwyddi draw yw codi a '[ch]lodforu enw Duw'.[22] Ynddi mae canol nos yn gyfnod cysegredig ac yn gyfle i foli Duw. Dyma'r pennill cyntaf:

---

[18] A. Roger Ekirch (2001), 'Sleep we have lost: Pre-industrial slumber in the British Isles', *The American Historical Review*, 106(2), 343–86; idem (2005), *At Day's Close: Night in Times Past* (New York: W. W. Morton & Company Ltd); idem (2015), 'The Modernization of Western Sleep: Or, Does Insomnia Have a History?', *Past and Present*, 226(1), 149–92.

[19] Handley, *Sleep*, tt. 5, 8–9; Craig Koslofsky (2011), *Evening's Empire: A History of the Night in Early Modern Europe* (Cambridge: Cambridge University Press). Mae Handley yn cyfeirio at amheuaeth ynghylch semanteg cwsg cyntaf ac ail gwsg.

[20] *Canwyll*, t. 122.

[21] Ibid., tt. 258–9.

[22] Ibid.

Mor hyfryd ac mor weddus,
Yw canu i Dduw yn rymmus,
Ganol nôs pan bo pôb dyn,
Yn cysgu hûn yn felus.[23]

Mae patrymau Beiblaidd ar gyfer hyn yn cael eu nodi ar ymyl y ddalen yn yr argraffiad printiedig, megis pan mae'r Salmydd yntau yn dweud mor dda yw moli Duw yn y nos yn Salm 119:62: 'Hanner nos y cyfodaf, i'th foliannu am farnedigaethau dy gyfiawnder'. Mae'r gallu i foli Duw pan mae pawb yn cysgu yn cael ei ddyrchafu gan y Ficer ac ymddengys fel cyfle amhrisiadwy i nesáu ato. Yn ôl Alec Ryrie, roedd meddwl yn y termau hyn yn gyffredin ar y pryd ac felly mae cerddi'r Ficer yn nodweddiadol o arferion cwsg ehangach ym Mhrydain.[24] Nid profiad unigol mo hwn; yn nes ymlaen yn y gerdd ceir defnydd o'r person cyntaf lluosog sy'n awgrymu mai profiad cyfunol ydyw â phawb yn y cartref yn codi i gydfoli Duw:

A chwnnu lawr o'r gwely,
Fel Dafydd iw foliannu,
Ar ein dau-lin ganol nos,
Yn ddi-flin dros ein helpu.[25]

Mae deongliadau posibl eraill hefyd o'r 'ni' yn y pennill hwn. Er enghraifft, gellid honni mai dyfais rethregol yw'r 'ni' sy'n cyfleu'r gred bod Cristnogion eraill yn codi i gydfoli Duw gyda'i gilydd fel un corff. Yn ychwanegol, gellid honni ar sail y cyfeiriad at Dafydd bod y credadun yn cael ei ddarlunio fel pe bai'n cydfoli Duw gyda'r Salmydd. Mae'r pennill yn sefydlu patrwm ymhle y dengys y dylai'r credadun, wrth godi ganol nos, adael y gwely a phlygu mewn mawl i Dduw â hyder oherwydd bod Duw yn cynorthwyo'i bobl.[26]

Yr ail gerdd yw 'Y môdd y dlye ddyn grassol ddeffro ei gorph ai enaid genol nôs i glodfori Duw', cerdd arall sydd ar fesur triban.[27] Mae'r teitl hwn yn awgrymu mai gweithred fwriadol yw dihuno yn y nos a wneid gan bobl er mwyn clodfori Duw.[28] Mae'n bosibl hefyd fod y 'deffro' yn drosiadol ac yn cyfleu'r angen i beri i'r corff a'r enaid ymegnïo wrth foli Duw. Ymhlyg yn y gerdd, efallai, mae tystiolaeth nad yw codi ganol nos yn rhwydd i bawb. Nid yw hyn o reidrwydd yn tanseilio dadl sylfaenol Ekirch, oherwydd yn y cyfnod modern cynnar, fel heddiw, byddai pobl yn cysgu'n wahanol i'w gilydd; byddai rhai yn gysgwyr

[23] Ibid., t. 258.
[24] Alec Ryrie (2013), *Being Protestant in Reformation Britain* (Oxford: Oxford University Press), t. 84.
[25] *Canwyll*, t. 258.
[26] Ibid., t. 259.
[27] Ibid., tt. 260–1.
[28] Tyn Ryrie sylw at unigolion o'r cyfnod modern cynnar a oedd yn fwriadol yn ceisio codi yn y nos fel disgyblaeth ysbrydol; gweler Alec Ryrie (2016), 'Sleeping, Waking and Dreaming in Protestant Piety', yn Jessica Martin ac Alec Ryrie (goln), *Private and Domestic Devotion in Early Modern Britain* (Routledge: London and New York), tt. 73–92 (86–7).

trwm, ac eraill yn gysgwyr ysgafn. O ganlyniad, mae cerddi'r Ficer yn galw am ddehongli mwy gofalus a chynnil cyn cefnogi dadl sylfaenol Ekirch y byddai pawb yn codi ganol nos cyn y Chwyldro Diwydiannol. Gallai cysgwyr amrywiol ddefnyddio cerddi'r Ficer ar gwsg oherwydd eu bod i raddau'n destunau agored â rhwydd hynt i'r defnyddwyr eu dehongli, a llenwi'r bylchau, yn ôl eu hanghenion personol.[29] Yn sylfaenol, rhaid bod yn grediniwr i'w trin; wedi hynny maent yn agored i Gristnogion.

Yn y gerdd hon, sydd wedi'i hysgrifennu yn yr ail berson unigol, gelwir ar yr enaid i ddihuno'r corff er mwyn moli Duw. Unwaith eto, canu mawl i Dduw yw'r prif beth i'w wneud fin nos. Yn wahanol i'r gerdd flaenorol canolbwyntir ar waith Duw wrth achub y credadun, a mynegir credoau uniongred Awstinaidd ynghylch analluedd dyn i'w achub ei hun heb ras Duw, fel y gwelir yma:

> Fe'th greawdd cyn berffeithied,
> Fe'th dynnodd o gathiwed,
> Fe'th adgenhedlodd o'th ddrwg rân,
> Ai Yspryd glân bendiged.[30]

Nid oes amheuaeth yn y pennill: Duw a weithiodd yn y Cristion i'w achub trwy ei dynnu o gaethiwed ei bechod a'i olchi o'i 'ddrwg rân' gyda'r 'Yspryd'. Mae'r gerdd yn gwbl glir ynghylch yr angen am ymyrraeth gan Dduw er mwyn achub y pechadur; Duw yw awdur iachawdwriaeth y Cristion unigol – nid gweithred ddynol ydyw. (Mynegir yr un uniongrededd Awstinaidd gan y Ficer yn y gerdd nesaf yn y *Canwyll*, sef 'Diolch am etholedigaeth ac am amryw ddoniau ysprydol'.)[31] Mae'r achubiaeth hon yn ei thro'n dwyn ffrwythau cymdeithasol a phersonol:

> Fe wnaeth id fyw mewn cariad,
> Hawddgarwch a chymmeriad,
> Gydâ phob glân sort o ddyn,
> Heb gâs gan vn or teir-gwlad.[32]

Mae'r gwaith achubol yn peri i'r credadun allu byw mewn heddwch ag eraill – yn achos cynulleidfa'r Ficer mae'n debygol ei fod yn cyfeirio at y deyrnas fel yr oedd yn ei gyfnod ef. Rhyddheir y credadun o afael pechod yn ôl y Ficer, ond mae'r effeithiau cadarnhaol ar y gymdeithas ehangach yn gallu gwaredu cymdeithas rhag anhrefn a chasineb, efallai rhag yr Alban, Lloegr ac Iwerddon, neu yr Alban, Lloegr (a Chymru), ac Iwerddon.[33] Yn nhyb y

---

29 Ynghylch testunau agored gweler Umberto Eco (1979), *The Role of the Reader: Explorations in the Semiotics of Texts* (Bloomington: Indiana University Press).

30 *Canwyll*, t. 260.

31 Ibid., tt. 262–4.

32 Ibid., t. 261.

33 Am y berthynas rhwng y Cymry a'r Saeson yng ngwaith y Ficer gweler D. Alter (2022), 'Y Ficer

Ficer, felly, mae gan Gristnogaeth effaith gadarnhaol eang ar y gymdeithas sydd yn mynd y tu hwnt i achub y pechadur unigol. Oherwydd hyn, dylai'r Cristion godi yn y nos a moli a diolch:

> Ir Tâd, ir Mâb, ir Yspyryd,
> Ir Drindod undod hyfryd,
> Y bo Clod a Moliant mawr,
> Bob dydd, bob awr, bob ennyd.[34]

**Sut i gysgu'n dda?**

Mae nifer o'r cerddi sydd dan sylw yma'n cynnig arweiniad ynghylch sut i gysgu'n dda. Yn sylfaenol, i'r Ficer rhodd gan Dduw yw noson dda o gwsg a rhaid ceisio ei gymorth Ef er mwyn cysgu'n ddiogel ac yn dawel. Wrth gwrs, mae sail Feiblaidd i hyn â'r Salmau'n aml yn gofyn am gymorth gan Dduw i gysgu, megis yn Salm 4:8: 'Mewn heddwch hefyd y gorweddaf, ac yr hunaf: canys ti, Arglwydd, yn unig a wnei i mi drigo mewn diogelwch'. Yn 'Gweddi wrth fynd ir gwely' mae'r llefarydd yn dweud y daw:

> Attad ti fy Nuw am Ceidwad,
> Ar fy naulin heno i'mhwedd,
> Am dy gymmorth a'th drugaredd.[35]

Mae'r Cristion yn y dyfyniad yn ceisio Duw ac yn galw arno i'w ddiogelu a'i fendithio. Cynhesrwydd y berthynas rhwng y credadun a'i Dduw yw sail y cais am gymorth i gysgu. Fodd bynnag, mae rhyddid i'r darllenydd, neu'r llefarydd, ddehongli 'cymorth' fel cymorth ysbrydol bob awr o'r dydd, fel cymorth yn fwy cyffredinol ym mhob agwedd o fywyd, yn ogystal ag fel cymorth mwy penodol ynghylch cysgu. Dyma rai deongliadau posibl sy'n dangos y rhyddid a rydd y Ficer i'w gynulleidfa yn y cerddi hyn. Mae astudio'r cerddi cwsg yma'n taflu goleuni ar sut yr oedd pobl yn dibynnu ar Dduw. Er mwyn iddo gysgu'n dda gofynnir i Dduw ddwyn y Cristion yn agos:

> Derbyn fi gan hynny ith fynwes,
> Dôd fi rhwng dy ddwy-fron gynnes;
> Fel y gallwi'n esmwyth orwedd,
> Heno 'm mreichiau dy drugaredd.[36]

Mae'r pennill yn mynegi sut y mae Duw'n caru Cristnogion, ac mae'r llefarydd yn dibynnu ar hynny er mwyn cysgu'n dawel. Un rheswm y gall y Cristion gysgu yw oherwydd bod

Prichard a Phla Llundain 1625', *Y Traethodydd*, 176/742, 80–95.

[34] *Canwyll*, t. 261.

[35] Ibid., t. 256.

[36] Ibid.

Duw wastad yn effro ac yn gwylio drosto. Dadleua Handley: 'Sleepers depended on an ever-wakeful God to make their slumber sound and to guard their bodies and souls against danger whilst their strength was restored'.[37]

Mae Handley hefyd yn awgrymu bod y cysylltiad rhwng iechyd a chwsg yn hysbys, ac y gwyddai pobl ei fod yn gyfle i'r corff gryfhau.[38] Gwelwn ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cwsg i iechyd y credadun gan y Ficer yn y pennill canlynol o'r gerdd 'Diolch foreuol pan ddihuner gynta':

> Rwyti 'n rhoddi i'm esmwythder,
> A llonyddwch mawr bôb amser;
> Gan reffreshio beunydd felly,
> F'egwan gorph â melus gyscu.[39]

Mae cwsg felly yn rhodd gan Dduw i gryfhau'r corff. Mae'r pennill hwn hefyd yn cynnig enghraifft o un o nodweddion y Ficer, sef ychwanegu 'o' at eiriau Saesneg a'u Cymreigio. Mae'r arfer hwn yn dangos yr ymwneud ieithyddol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yng ngherddi'r Ficer.

Er mwyn cael noson dda o gwsg, roedd pobl yn paratoi'n bwrpasol. Cysyniad Handley am y defodau sy'n paratoi'r credadun am y gwely yw duwioldeb cwsg ('sleep piety'), a olyga unrhyw fath o arfer neu ddefod sy'n ymwneud â chwsg a oedd yn cael ei ysgogi'n rhannol o leiaf gan gredoau Cristnogol. Yn ôl Handley:

> Early modern sleep-piety was distinguished by its fervency and by its depth of submission to God's protection during the night, as Christians anticipated the dangers that they might be exposed to as they lay helpless in their beds. They begged for divine protection by repenting of their sins at bedtime, offering prayers in and around their bedsteads, and by filling their minds with holy thoughts – often with the aid of devotional texts, images and other meaningful objects that surrounded the bedside.[40]

Mae'r gweithgareddau hyn oll yn ymddangos yng ngherddi'r Ficer, fel y gwelwn maes o law. Dylid nodi bod duwioldeb cwsg yn ymestyn at y bore yng ngherddi'r Ficer wrth iddo gyfansoddi cerddi'n diolch i Dduw ac i Grist am ddiogelwch yn y nos.[41]

---

[37] Handley, *Sleep*, t. 72.
[38] Ibid., t. 77.
[39] *Canwyll*, t. 121.
[40] Handley, *Sleep*, tt. 69–70.
[41] *Canwyll*, tt. 121–2.

## Gweddïo

Roedd gweddïo'n rhan amlwg o dduwioldeb cwsg. Ymhlith cerddi cwsg y Ficer mae dwy weddi, sef 'Gweddi wrth fynd ir gwely', a 'Hymn iw chanu i Dduw cyn mynd i gysgu' sy'n gorffen gydag 'Amen'.[42] Mae yna elfennau o weddïo i'r cerddi eraill hefyd wrth iddynt gyfarch Duw yn uniongyrchol, ac yn aml mae'r llefarydd yn ei geisio ac yn ceisio'i fendith a'i faddeuant. Roedd yn gyffredin i bobl weddïo cyn mynd i gysgu yn ôl Ryrie, ac mae cerddi cwsg y Ficer yn dangos bod hynny'n ddymunol os nad yn nodweddiadol o'r bywyd Cristnogol.[43] Mae gweddïo cyn cysgu yn bwysig yn symbolaidd, gan amlygu'r angen i ddibynnu ar Dduw am ddiogelwch ac i ddiolch iddo am ei ofal. Mae Alec Ryrie wedi astudio gweddïau'r Protestaniaid yn ei gyfrol *Being Protestant in Reformation Britain*, ac mae ganddo bum pennod yn astudio sut y gweddïai Protestaniaid ym Mhrydain (er mai'r Alban a Lloegr yw ei ffocws).[44] Dengys i weddïo gael ei ddeall gan Brotestaniaid fel mynegiant didwyll rhwng yr unigolyn a Duw, ac roedd yn werthfawr iawn yn ysbrydol.[45]

Yn sylfaenol, gweddïo yng ngherddi'r Ficer yw siarad â Duw, a gellid gwneud hynny'n hyderus oherwydd, ys dywed y Ficer: '*Nid oes dim mor gryf a Gweddi*'.[46] Nid yw cerddi'r Ficer yn annog gweddïau fformiwläig. Mae'r gweddïau a'r cerddi cwsg sydd dan sylw yma'n adlewyrchu barn Ryrie fod Protestaniaid yn annog gweddïau o'r galon, heb ddilyn fformiwla arbennig.[47] Caiff gweddïo o'r galon ei annog, fel y gwna'r Ficer yn 'Rhybydd i Ddyn feddwl am Dduw y bore':

> Rho iddo flaen-ffrwyth dy wir galon,
> Blaen ffrwyth d'eirie a'th feddylion:
> Duw a fyn y ffrwythau cyntaf;
> Ni fyn Duw na'r ail na'r olaf.[48]

Mae'r pennill hwn yn ddyledus i'r *Ymarfer o Dduwioldeb*, fel y mae Nesta Lloyd wedi ei ddangos.[49] Mae'r pwyslais ar sicrhau bod y credinwyr yn blaenoriaethu Duw gan roi iddo'r pethau gorau ac efelychu Ecsodus 34:26, a ddywed: 'Dwg y goreu o flaen-ffrwyth dy dir i dŷ yr Arglwydd dy Dduw'. Mae'r gweddïau cwsg dan sylw yn dechrau trwy gyfarch Duw mewn mawl; ac eithrio hynny, nid oes strwythur pendant iddynt – mae'r crediniwr yn rhydd i weddïo fel y dymuna. Gwelwn elfennau o rethreg nodweddiadol y Ficer wrth iddo gyfarch ei gynulleidfa'n uniongyrchol a'u hannog i ymateb yn bersonol ac fel unigolion. Fel

[42] Ibid., tt. 255–8; 253–4.
[43] Ryrie, *Being Protestant*, tt. 148–54.
[44] Ibid., tt. 99–256.
[45] Ibid., tt. 99–118.
[46] *Canwyll*, t. 116.
[47] Ryrie, *Being Protestant*, tt. 200–38.
[48] *Canwyll*, t. 121.
[49] Lloyd, '"Yr Ymarfer o Dduwioldeb"', 102; Rowland Vaughan (1930 [1630]), *Yr Ymarfer o Dduwioldeb gan Lewis Bayly wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg gan Rowland Vaughan*, gol. John Ballinger (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 129–30.

y mae Siwan Non Richards wedi dadlau: ‘Byddai apelio’n uniongyrchol at gynulleidfa yn gymorth i’r llefarydd gryfhau effaith bedagogaidd, ddidactig y penillion – yn enwedig drwy ei alluogi i wneud defnydd cyson o ffurfiau pwerus y gorchmynnol’.[50] Mae’r Ficer yn dangos yn hytrach na dweud wrth ei gynulleidfa sut i weddïo; dylent siarad â Duw yn ddidwyll.

Caiff yr elfen emosiynol wrth weddïo ei dadlennu yn y cerddi hyn. Mae cais yn ‘Gweddi wrth fynd ir gwely’ ar i Dduw ysgogi ymateb emosiynol ar ran y crediniwr gan ofyn iddo: ‘Pâr im wylo ac alaru’, ac yn ddiweddarach, ‘Pâr im grio ’n daer am bardwn’.[51] Roedd crio’n rhan bwysig o weddïau Protestannaidd, er nad oedd mor gyffredin yn gyhoeddus ag yr oedd yn ystod yr Oesoedd Canol yn ôl Ryrie.[52] Esbonia Ryrie sut y câi dagrau wrth weddïo eu dehongli yn ystod y cyfnod modern cynnar fel a ganlyn:

> Protestant tears did not just happen. They were longed for, striven for, treasured, and, if absent, worried about. It was, in fact, precisely their semi-involuntary nature which made them precious. This went to the heart of the problem of Protestant emotion. True penitence was, for Reformed Protestants, a gift of grace which only the Holy Spirit could give, and which was given only to the elect. But distinguishing true penitence from false was tricky, and tears were the single most important clue – not an infallible one, but they sometimes came pretty close.[53]

Roedd dagrau, yn ôl Ryrie, yn gallu rhoi sicrwydd i’r credadun ynghylch ei etholedigaeth oherwydd eu bod yn brawf o waith yr Ysbryd ynddo.[54] O ganlyniad, roedd dagrau’n destun llawenydd gan roi sicrwydd i’r credadun. Yn ‘Gweddi wrth fynd ir gwely’ mae llefarydd y weddi yn pledio â Duw er mwyn ysgogi ymateb emosiynol i’w bechod, efallai oherwydd y gred gyffredin ei fod yn medru dirnad i ba raddau yr oedd yn etholedig ac yn gadwedig ai peidio. Wrth wylo oherwydd pechod mewn gweddi gall y crediniwr lawenhau oherwydd ei fod yn brawf o’i ddealltwriaeth o ddifrifoldeb ei ddrygioni, a’r ffaith ei fod yn ymgymryd â brwydr ysbrydol yn erbyn pechod. Nid yw’n syndod, felly, i’r weddi hon gynnwys cais am ddagrau.

Cawn olwg hefyd ar osgo’r corff wrth weddïo yng ngherddi’r Ficer. Gwelwn fod y gweddïwr yn penlinio wrth siarad â Duw. Mae sawl dyfyniad perthnasol, megis: ‘Arglwydd mawr ’r wi ar fy nglinie, / Wrth fy ngwely ...’.[55] O ddehongli’r llinellau hyn yn llythrennol, gellid awgrymu iddo blygu er mwyn cydnabod mawredd Duw a’i addoli ac iddo adael y gwely. Yn y gerdd ‘Am Weddi a’i pherthnasseu’, mae’r Ficer yn siarad â’i gynulleidfa’n uniongyrchol fel unigolion ac yn dweud wrthynt:

---

[50] Richards, *Y Ficer Prichard*, t. 50.
[51] *Canwyll*, t. 257.
[52] Ryrie, *Being Protestant*, tt. 187–95.
[53] Ibid., t. 189.
[54] Ibid., t. 191.
[55] *Canwyll*, t. 255.

Cod d'olygon, plûg dy liniau:
Tann dy ddwylo, agor d'eneu:
Deffro d'yspryd, cûr dy ddwyfron:
Llwyr weddia â'th holl galon.[56]

Mae'r pennill yn adlewyrchu safbwynt Ryrie, sef bod penlinio yn osgo nodweddiadol wrth weddïo ar y pryd, fel yr oedd cyn y Diwygiad Protestannaidd.[57] Dylid nodi i Ryrie bwysleisio nad oes gwahaniaeth mawr rhwng osgo'r corff wrth weddïo cyn ac ar ôl y Diwygiad Protestannaidd. Felly nid nodweddion neilltuol Brotestannaidd, o reidrwydd, sydd dan sylw yn y dyfyniad uchod; maent yn nodweddion cyffredin ymhlith Cristnogion wrth weddïo.

Roedd manteision duwiol i benlinio yn ôl credoau Cristnogol. Wrth gwrs, roedd plygu glin wrth siarad â Duw yn ffordd symbolaidd o ddarostwng eich hunain ger ei fron a'i addoli, yn ogystal â dangos annheilyngdod y llefarydd, fel a amlygir yn y pennill canlynol:

Arglwydd mawr 'r wi ar fy nglinie,
Wrth fy ngwely yn cyfadde,
Nad wyf deilwng edrych arnad,
Chwaethach dwad yn nes attad.[58]

Caiff penlinio, neu blygu gliniau, eu darlunio fel mynegiant corfforol o gydnabyddiaeth y credadun o fawredd Duw a'i annheilyngdod wrth ddod ato. Roedd penlinio hefyd yn ffordd boenus o weddïo, ac ar y pryd câi ei ddeall fel rhywbeth oedd yn dwyn bendith ysbrydol wrth i'r credadun ymgymryd â brwydr gorfforol er mwyn addoli a moli Duw.[59] Mae penlinio, felly, yn brawf o ymroddiad y credadun wrth siarad â Duw, a'i addoli; ac o ddeall penlinio fel rhan o'r frwydr gorfforol, gellid dadlau ei fod yn dangos goruchafiaeth yr ysbryd sydd ar waith yn y credadun, ar draul grym y cnawd sydd yn ei dynnu i bechod. Yn ymarferol hefyd, roedd penlinio wrth weddïo cyn cysgu yn hytrach na'i wneud yn y gwely yn fodd i atal pobl rhag syrthio i gysgu; wrth reswm, gellid syrthio i gysgu wrth weddïo yn y gwely, felly roedd y gwely yn rhy gyfforddus yn ôl sawl unigolyn o'r cyfnod hwnnw, fel y dengys Ryrie.[60]

Mae'r cerddi cwsg dan sylw sy'n ymwneud â gweddïo wedi'u hysgrifennu yn yr ail berson unigol neu'r person cyntaf unigol. Gall hyn awgrymu mai gweithred breifat oedd gweddïo, â'r credadun yn ymneilltuo oddi wrth eraill i weddïo ar ei ben ei hunan. Nid gweddïau preifat yw'r rhain o reidrwydd. Yn ôl Ryrie, nid oedd y ddealltwriaeth fodern o breifatrwydd yn gyffredin yn y cyfnod modern cynnar, ac ni fyddai gweddïo'n breifat wedi bod o fewn

[56] Ibid., t. 107.
[57] Ryrie, *Being Protestant*, tt. 178–9.
[58] *Canwyll*, t. 255
[59] Ryrie, *Being Protestant*, t. 173.
[60] Ibid., t. 161.

cyrraedd trwch helaeth y boblogaeth.[61] Roedd y rhan fwyaf o bobl yn byw mewn tai oedd â mwy o bobl nag ystafelloedd; ni fyddai'r ystafell wely, os oedd un, wedi bod yn ofod preifat. Ni fyddai'r gwely, hyd yn oed, wedi bod yn ardal breifat: byddai partneriaid, teulu a ffrindiau wedi bod yn gwmni i'w gilydd. Yn wir, roedd cael cywely, hynny yw, person i rannu gwely, yn gyffredin ac, ar adegau, yn ddymunol oherwydd eu bod yn gallu bod yn gwmni, ac yn gallu cynnig anogaeth ysbrydol yn ogystal â diogelwch.[62] Gan hynny, mae'n bosibl fod y Ficer yn cymryd yn ganiataol mai gweddïo gydag eraill y byddai'r gynulleidfa yn ei wneud. Er bod y person cyntaf i'w weld mewn rhai o'r cerddi, nid yw hynny'n lleihau yr elfen gyfunol. Mae'n batrwm er mwyn coleddu a mynegi'r credoau yn unigol ac fel rhan o grŵp, wrth i'r crediniwr unigol goleddu Cristnogaeth a dod ynghyd ag eraill.

Yn ogystal â gweddïo roedd pobl yn darllen y Beibl cyn mynd i gysgu, ac mae'r Beibl yn rhan o ddefod cwsg. Mae'r *Ymarfer o Dduwioldeb* yn annog y Cristion i ddarllen y Beibl cyn cysgu, ac mae'r Ficer yn adlewyrchu hynny.[63] Mewn cerdd sy'n ymdrin â'r hyn y dylid ei ystyried a'i wneud cyn mynd i gysgu, mae'r Ficer yn annog ei gynulleidfa fel a ganlyn:

> Prudd weddia ar dy linie,
> Darllain bennod o'r Scrythure:
> Dysc dy blant mewn pwyntiau crefydd,
> Duw 'th fendithia yn dragywydd.[64]

Yn y pennill hwn gwelwn drefn feunyddiol ddelfrydol y Cristion cyn mynd i gysgu yn ôl y Ficer. Roedd darllen y Beibl yn gwbl ganolog i Brotestaniaeth, ac yn ôl Ryrie, roedd rhai'n credu y byddai darllen y Beibl yn ddyddiol yn cadw llygredd a Chatholigiaeth draw.[65] Mae'r Ficer yn adlewyrchu diwylliant Beibl-ganolog Protestaniaeth yn ei gerddi ac yn annog y Cristion: 'Darllen air duw nôs a borau'.[66] Ei ddelfryd yw bod Cristnogion yn bobl sydd yn llwyr gyfarwydd â'r Beibl, ac y dylid dechrau a gorffen pob diwrnod wrth droi ato. Dylai cynulleidfa'r Ficer fod mor gyfarwydd â'r Beibl nes iddo ddod yn 'gywely it bob noswaith'.[67] Yn ôl Handley, un o'r prif resymau dros gael cywely oedd er mwyn cael diogelwch.[68] Gellid dadlau bod, ymhlyg yn y dyfyniad hwnnw, felly, y gred fod y Beibl yn diogelu'r Cristion. Dylid nodi nad yw darllen o reidrwydd yn golygu darllen preifat, yn debyg i weddïo preifat. Gan ddilyn dadl Nesta Lloyd fod 'y Ficer yn adnabod ei gynulleidfa gyfoes yn drylwyr', mae'n debygol mai darllen yn uchel sydd ganddo mewn golwg oherwydd diffyg llythrennedd

[61] Ibid., t. 157.
[62] Gweler Handley, *Sleep*, tt. 176–80.
[63] Vaughan, *Yr Ymarfer o Dduwioldeb*, t. 172.
[64] *Canwyll*, t. 252.
[65] Ryrie, *Being Protestant*, t. 270.
[66] *Canwyll*, t. 7.
[67] Ibid.
[68] Handley, *Sleep*, tt. 176–80.

yn ogystal â diffyg cyfle i gael amser preifat; mae'n cymryd yn ganiataol fod o leiaf un person yn y cartref yn gallu darllen ar yr aelwyd.[69]

## Diogelwch

Dywed Siwan Non Richards mai pwrpas y Ficer oedd 'creu penillion a fyddai'n ateb angen arbennig'.[70] Rydym eisoes wedi gweld sawl angen cyffredinol yn cael ei ateb yn y penillion, megis yr angen i edifarhau ac i geisio cymorth Duw. Mae angen penodol sy'n ymwneud â chwsg yn y cerddi dan sylw hefyd, sef diogelwch. Gall gofyn am ddiogelwch hwyluso cwsg y credadun oherwydd o geisio gofal Duw yn y nos, a gwybod ei fod yn gwarchod y credadun, deuai cysgu'n haws iddo.

Un o brif nodweddion cerddi cwsg y Ficer yw eu bod yn gofyn i Dduw am ddiogelwch. Mae'r cerddi'n adlewyrchu gweddïau cwsg yn Lloegr a oedd, yn ôl Handley, yn rhoi cyfle i Gristnogion gymodi â Duw, cryfhau eu ffydd, a chyflwyno'u heneidiau i ofal yr Arglwydd.[71] O safbwynt diogelwch roedd yna beryglon niferus wrth gysgu, yn ysbrydol ac yn fydol; fel y dywed Handley: 'Sleep was understood to be replete with earthly and spiritual dangers'.[72] Mae'r ymwybyddiaeth o beryglon yn gefndir sylfaenol i'r cerddi, ac yn sgil hynny mae cerddi cwsg y Ficer yn rhannu rhai o'r un nodweddion â cherddi cwsg Lloegr a'r Alban yn y cyfnod hwn ymhle y mae diogelwch yn ymddangos fel prif thema.[73] Mae teitl un o'i gerddi, 'Rhybydd i Ddyn feddwl am Dduw y bore, ac i roddi diolch iddo, am ei gadw'r nôs rhag niwed',[74] yn dangos yn glir nad oedd diogelwch yn ystod y nos yn rhywbeth i'w gymryd yn ganiataol. Yn wyneb y perygl, mae teitl y gerdd yn sefydlu mai Duw sy'n gyfrifol am ddiogelwch y credadun yn y nos, ac y dylid diolch iddo am ei ymyrraeth sy'n sicrhau y gall y credadun godi yn y bore.

Roedd sawl rheswm dros bryderu wrth fynd i gysgu, a phryderwyd am angau ac am ddiogelwch ysbrydol yn gyson. Ymhlith yr ofnau mwyaf roedd Satan. Rhaid oedd gweddïo am ofal Duw oherwydd bod y diafol yn effro; nid oedd Satan yn cysgu nac yn gorffwys ac roedd yn ceisio niweidio'r saint bob awr o'r dydd. Dywed y Ficer wrth ei gynulleidfa:

> Y mae 'r scrythur yn mynegi,
> Fod y Diawl yn troi o bobtu,

[69] Lloyd, 'Rhagymadrodd', *Cerddi'r Ficer*, t. xxiii. Am arferion darllen yn y cyfnod modern cynnar gweler Alberto Manguel (1996), *A History of Reading* (London: Harper Collins); G. Cavallo ac R. Chartier (goln) (1999), *A History of Reading in the West* (Cambridge: Polity Press). Cyfeirir at y berthynas rhwng darllen y Beibl a Phrotestaniaeth yn Eryn White (2015), 'The Bible and the Book in Early Modern Wales, 1546–1770', yn C. Archers ac L. Peters (goln), *Religion and the Book Trade* (Newcastle upon Tyne: Cambridge Scholars Publishing), tt. 6–28.

[70] Richards, *Y Ficer Prichard*, t. 37.

[71] Handley, *Sleep*, t. 88.

[72] Ibid., t. 69.

[73] Ryrie, 'Sleeping, Waking and Dreaming', tt. 79–80.

[74] *Canwyll*, tt. 119–21.

Ddydd a nôs yn ceisio llarpio,
Megis Llew pwy bynnag allo.[75]

Pwysleisia'r Ficer y neges ysgrythurol fod y diafol yn ceisio malurio pobl drwy'r amser ac yn chwilio am bobl druenus yn ddiflino. Cyffelybir ef i lew a gwneir hyn mewn sawl cerdd. Wrth gwrs, mae i ddeall y diafol fel llew draddodiad Beiblaidd.[76] Mae'r credadun yn cael ei annog i feddwl am yr un drwg cyn cysgu ac i gofio mai sefyllfa hollol anobeithiol a'i hwynebai heb i Dduw ei rwystro. Yn ôl y Ficer nid oes gallu gan y ddynoliaeth i rwystro'r diafol, oherwydd bod rhaid iddynt gysgu; o ganlyniad, Duw yw'r unig obaith. Wrth gysgu, mae credinwyr yn ildio i allu Duw i'w hamddiffyn; mae cysgu'n naid ffydd. Un o ddarluniau stoc y Ficer yw'r llew a llewod, ac maen nhw'n batrwm mnemonig hefyd i atgoffa'r gynulleidfa o ffyrnigrwydd y diafol a'i fod yn hela'i braidd. Yn ôl Siwan Non Richards, dengys defnydd y Ficer o batrymau mnemonig ei fod yn ddyledus i'r traddodiad llafar oherwydd bod y patrymau hyn, sef ailadrodd delweddau stoc sy'n hwyluso'r broses o gyfathrebu llwyddiannus rhwng y llefarydd, y bardd a'r gynulleidfa, yn nodweddiadol o'r traddodiad hwnnw.[77] Dylai'r credadun fod yn effro i fygythiad y diafol yn ôl y Ficer. Mae'r cyfeiriadau at y llew yn dwyn i gof hanes Daniel yn ffau'r llewod, cysylltiad y mae'r Ficer yn ymwybodol ohono:

*Mwy yw perig dyn sy'n cyscu,*
*Yn ei wely heb nawdd Jesu,*
*Nag oedd perig* Ddaniel *hynod,*
*Gynt wrth gyscu rhwng y llewod.*[78]

Mae'r pennill hwn yn amlygu'r perygl gwirioneddol i'r sawl nad yw'r Iesu yn eiriol drostynt wrth gysgu ac yn ei gyfosod â'r perygl o safbwynt bydol a wynebai Daniel yn yr Hen Destament.

Er gwaethaf gofal Duw am y crediniwr, mae'r llefarydd yn 'Gweddi wrth fynd ir gwely' yn mynegi ei anallu ef i sicrhau ei fod yn deffro i weld y wawr:

Arglwydd 'rwyfi 'n mynd i orwedd,
Heb wybodaeth am fy niwedd:
Os ni wyr un dyn pan cysco,
P'un a wna ai codi ai peidio.[79]

---

[75] Ibid., t. 252; gweler hefyd t. 256.
[76] Gweler, er enghraifft, 1 Pedr 5:8.
[77] Richards, *Y Ficer Prichard*, t. 49. Am ymdriniaeth benodol â'r cefndir llafar gweler Siwan Non Richards (1995), 'Y Cefndir Llafar i *Canwyll y Cymry*', *Llên Cymru*, 18, 258–72.
[78] *Canwyll*, t. 119. Caiff y pennill ei ailadrodd ar dudalen 251.
[79] Ibid., t. 255.

Ni wyddai'r Cristnogion a fyddent yn codi yn y bore, ond oherwydd eu ffydd yn Nuw a'i allu Ef maent yn cysgu'r un modd. Mae'r cyflwr hwn o ansicrwydd yn gyffredin i bob unigolyn, beth bynnag fo'u cyflwr ysbrydol, a'r unig ddatrysiad yw i droi at Dduw am ddiogelwch ac ymddiried ynddo.

Mae ceisiadau am ddiogelwch bydol yn amlwg yng ngherddi cwsg y Ficer. Roedd cysgu yn y cyfnod hwn yn weithred beryglus; roedd gweld gwawr y bore yn ansicr. Roedd nifer o hanesion yn cylchredeg am bobl yn marw yn y nos. Mae'r *Ymarfer o Dduwioldeb* yn atgoffa'r gynulleidfa fel a ganlyn: 'Cofia fod llawer yn myned iw gwely, ac heb gyfodi byth drachefn'.[80] Mae peryglon eraill hefyd, ac yn eu plith y mae'r nifer o ymosodiadau a ddigwyddai fin nos. Dioddefai rhai o aflonyddu a chamdriniaeth, ac roedd yr oerfel yn berygl i fywyd yn ogystal. Roedd damweiniau yn digwydd yn ystod y nos, ac un o'r enghreifftiau amlycaf yw tân Llundain, 1666, a ddechreuodd ganol nos ar nos Sul, yr ail o Fedi. Roedd y nos yn gyfnod peryglus, felly, ac roedd pob unigolyn mewn perygl yn ddiwahân – er y byddai rhai wedi bod mewn mwy o berygl na'i gilydd. Dengys Roger Ekirch i nifer geisio amddiffyn eu tai gan gynnwys pawb oedd ynddynt cyn mynd i gysgu, ac oherwydd y peryglon gosodent ddodrefn o flaen drysau i greu baricêd.[81] Nid oes cyfeiriad at hynny yng ngherddi cwsg y Ficer, ond sonia am gau'r drws yn y nos a'i agor yn y bore:

> Diwedda 'r Dydd fel y dechreuaist,
> Cau dy ddrysau fel agoraist.[82]

Ymddengys efallai y caiff y drws ei gadw yn agored drwy'r dydd, ond gyda'r nos rhaid ei gau, ac efallai ei gloi, sy'n awgrymu y dylanwadai peryglon y nos ar arferion dyddiol.

Mae'r cais am ddiogelwch bydol yn gefndir sylfaenol i sawl cerdd. Sylwer ar deitl un o'r cerddi eraill: 'Rhybydd i Ddyn feddwl am Dduw y bore, ac i roddi diolch iddo, am ei gadw'r nôs rhag niwed'. Caiff y gerdd ei fframio fel diolch i Dduw ben bore oherwydd na chafodd y credadun loes yn y nos. Caiff y credadun ei annog i ddiolch i Dduw am ei warchod, ei gadw, a gwylio drosto pan oedd yn cysgu.[83] Mae cais am ddiogelwch yn y nos yn codi'n gyson yn 'Gweddi wrth fynd ir gwely' hefyd. Mae ymwybyddiaeth o beryglon y nos, a'r angen i droi at Dduw am ddiogelwch, ymhlyg yn y cwpled canlynol sy'n gofyn i Dduw fod 'yn Geidwad' i'r credadun i'w gadw:

> Rhag pob niwed y ddigwyddo,
> Yn enwedig immi heno.[84]

Oherwydd yr holl beryglon, cais y credadun ddiogelwch gan Dduw.

---

[80] Vaughan, *Yr Ymarfer o Dduwioldeb*, t. 172.
[81] Ekirch, 'Sleep we have lost', 353.
[82] *Canwyll*, t. 252.
[83] Ibid., tt. 119–21.
[84] Ibid., t. 255.

Mae'r peryglon hyn yn un rheswm pam roedd yn gyffredin i bobl gysylltu cwsg â marwolaeth.[85] Mae *memento mori*, sef y ddyfais o atgoffa pobl eu bod yn mynd i farw, yn nodweddu cerddi cwsg y Ficer. Dylid nodi nad yw hyn yn unigryw i'r cyfnod modern cynnar – mae i'r cysylltiad wreiddiau Beiblaidd a Chlasurol yn ogystal.[86] Yn *Yr Ymarfer o Dduwioldeb* mae cwsg yn cael ei ddarlunio fel rhywbeth sy'n debyg i orwedd yn y bedd, megis yn y frawddeg: 'Pan ganfyddych dy wely, pared hynny i ti feddwl am dy fedd'.[87] Mae'r Ficer yntau yn cysylltu cwsg â marwolaeth wrth i bawb baratoi am y gwely bob nos, a dywed:

Pan edrychech ar dy wely,
Cofia 'r bedd lle 'r ae i'th gladdu:
A chyn rhoi dy gorph i orwedd,
Dyfal feddwl am dy ddiwedd.[88]

Mae'r pennill hwn yn cyfateb i'r hyn a geir yn *Yr Ymarfer o Dduwioldeb* wrth gyplysu'r gwely a'r bedd.[89] Mae'n glir i'r *Ymarfer* ddylanwadu'n fawr iawn ar y Ficer wrth iddo farddoni, ac mae ei gerddi wedi'u trwytho yng nghynnwys y llyfr. Mae'n bosibl, os nad yn debygol, oherwydd y tebygrwydd iddo gyfansoddi'r cerddi â'r *Ymarfer* gerllaw. Yng ngherddi cwsg y Ficer caiff y credadun ei atgoffa o fyrhoedledd bywyd a sicrwydd marwolaeth wrth iddo fynd i gysgu bob nos, â phob dydd sy'n mynd heibio yn dwyn y credadun yn nes at ei ddiwedd.

Gellid disgwyl y byddai'r pryderon ynghylch diogelwch a'r ansicrwydd ynghylch dihuno'n fyw yn y bore wedi cael effaith andwyol ar iechyd meddwl pobl yn y cyfnod hwn. Mae trafodaethau ar iechyd meddwl yn y cyfnod modern cynnar yn aml yn ystyried effaith diffyg sicrwydd ynghylch etholedigaeth fel ysgogiad i felancoli.[90] Mae diffyg sicrwydd yn gonsýrn sy'n codi yng ngherddi cwsg y Ficer. Caiff pryderon ynghylch sicrwydd ac etholedigaeth y credadun, ac felly ynghylch ei statws cadwedig fel Cristion a fydd yn osgoi barn, eu mynegi yn y pennill canlynol:

Diogela 'nghalon egwan,
Fôd yn siccr immi gyfran,

[85] Un enghraifft amlwg yw *Gweledigaetheu'r Bardd Cwsc* gan Ellis Wynne (1703).
[86] Handley, *Sleep*, tt. 81–6.
[87] Vaughan, *Yr Ymarfer o Dduwioldeb*, t. 182.
[88] *Canwyll*, t. 253.
[89] Vaughan, *Yr Ymarfer o Dduwioldeb*, t. 182.
[90] Am y berthynas rhwng crefydd a melancoli gweler Jeremy Schmidt (2007), *Melancholy and the Care of the Soul: Religion, Moral Philosophy and Madness in Early Modern England* (Routledge: London and New York); Mary Ann Lund (2010), *Melancholy, Medicine and Religion in Early Modern England: Reading 'The Anatomy of Melancholy'* (Cambridge: Cambridge University Press). Gweler hefyd Ryrie, *Being Protestant*, tt. 28–48, ymhle y dadleuir bod tueddiad gan ysgolheigion i orbwysleisio effeithiau negyddol Calfiniaeth a syniadau ynghylch etholedigaeth. Dywed i nifer gymryd cysur yn y gred, er i nifer hefyd dristáu a gofidio.

> O'r dedwyddwch y bwrcassodd,
> Christ iw frodyr yn y nefoedd.[91]

Mae nifer o dermau sydd heddiw'n cael eu cysylltu ag anhwylderau meddwl yn codi yng ngherddi cwsg y Ficer fel pethau sy'n rhwystro cwsg, sef 'pryder', 'ofn' ac 'aflonyddwch'.[92] Yn sicr, byddai ystyried iechyd meddwl yng Nghymru yn ystod y cyfnod modern cynnar yn ennyn diddordeb o'r newydd ynddo ac yn taflu goleuni gwerthfawr ar fyw a bod yng Nghymru yn y cyfnod hwnnw. Cyfeiria'r Ficer at bryder fel un rhwystr sy'n atal cwsg. Gofynna'r llefarydd yn y gerdd 'Gweddi wrth fynd ir gwely' i Dduw ei ddiogelu ac 'Im castellu yn ddibryder', ac unwaith eto mae'n galw ar Dduw i daenu ei adain drosto fel y gallai 'yn ddibryder, / Gyscu deni mewn esmwythder'.[93] Oherwydd bod pryder yn codi fwy nag unwaith yn y cerddi cwsg, mae'n ymddangos fel profiad cyffredin ac fel consýrn cyson wrth geisio mynd i gysgu.

Cyfeirir at ofn hefyd; er enghraifft, gofynna'r llefarydd yn 'Gweddi wrth fynd ir gwely' i Dduw 'Im castellu rhag pob ofon'.[94] Yn ôl Ryrie, roedd ofnau'n codi'n gyson mewn gweddïau o'r cyfnod modern cynnar ac mae 'Gweddi wrth fynd ir gwely' yn adlewyrchu'r farn honno.[95] Yn nes ymlaen yn y gerdd mae'r llefarydd yn dweud wrth Dduw: 'Rho lonyddwch ac esmwythder' fel y gallai gysgu yn y nos.[96] Os caiff diffyg esmwythder a llonyddwch eu dehongli fel profiad seicolegol, fel bod yn aflonydd, gellid dehongli hwn fel term sy'n berthnasol i'w ystyried fel anhwylder meddwl hefyd. Ymddengys fod yr anhwylderau hyn, pryder, ofn ac aflonyddwch, a oedd yn cadw pobl yn effro yn y nos ac yn atal cwsg, yn gyffredin yn y cyfnod. Yn y cerddi, ceir ymwybyddiaeth o'r hyn sydd yn gallu tawelu'r ofnau hyn, sef Duw. Duw yn ôl y Ficer yw lleddfwr pob pryder, gan gynnwys yr hyn y byddem yn ei alw yn anhwylderau meddwl. O ganlyniad, gellid dadlau mai cynnig cyfrwng i fynegi pryderon seicolegol yw un o bwrpasau'r Ficer yn ei gerddi cwsg wrth iddo geisio gwasanaethu iechyd a lles ei gynulleidfa. Golyga hyn fod ei gerddi'n holistaidd ac yn ymwneud â'r gynulleidfa o ran eu teithi ysbrydol, corfforol, a seicolegol.

Pwysleisia'r Ficer mai Duw yw awdur diogelwch y Cristion yn ystod y nos. Yn hyn o beth, mae'r cerddi yn adlewyrchu'r profiad o gysgu yn Lloegr hefyd. Dywed Handley: 'The unique feelings of vulnerability created by sleep's bodily effects explain this persistent need for preservation, and it was to God that people turned to provide it'.[97] Oherwydd breuder y Cristion wrth gysgu troir ato yn gyson. Gofynna'r Ficer am ddiogelwch gan Dduw:

---

[91] *Canwyll*, t. 258.
[92] Am sut y dehonglir diffyg cwsg yn y cyfnod gweler Sasha Handley (2020), 'Accounting for sleep loss in early modern England', *Interface Focus*, 10(3). [Ar-lein: https://royalsocietypublishing.org/doi/10.1098/rsfs.2019.0087] (Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2022.)
[93] *Canwyll*, t. 256.
[94] Ibid.
[95] Ryrie, *Being Protestant*, t. 239.
[96] *Canwyll*, t. 256.
[97] Handley, *Sleep*, t. 71.

Bydd dy hun â'th rasol lygad,
Goruwch y rhain yn fyng wiliad.[98]

Gyfochr â'r pennill hwn gesyd Salm 34:15 sy'n dweud: 'Llygaid yr Arglwydd sydd ar y cyfiawn: a'i glustiau sydd yn agored i'w llefain hwynt', gan bwysleisio'r sail Feiblaidd sydd i weddïo fel hyn. Fel y dangoswyd eisoes, roedd y Ficer yn adnabod ei gynulleidfa'n dda; oherwydd hyn gwyddai am eu pryderon wrth fynd i gysgu a lluniodd gerddi a fyddai'n medru ysgafnhau beichiau'r anhwylderau oherwydd bod Duw yn gwrando ar ei bobl.

Mae cysgu mewn heddwch yn bosibl bellach oherwydd yr hyder sydd gan y credadun yng ngofal Duw dros y Cristion:

Weithian Arglwydd mi orweddaf,
Ac mewn heddwch myfi gysgaf;
Cans tydi o Dduw 'r diddanwch,
Am cyflei mewn diogelwch.[99]

Manylir yn y cerddi ar sut y cedwir y credadun yn ddiogel yn y nos, ac mae'r Ficer yn defnyddio trosiadau, llawer ohonynt, fel 'dan ... adain Christ',[100] yn amlygu gofal a chariad Duw. Nid Duw yn unig sy'n diogelu'r Cristion; dywed y Ficer fod angylion ar waith hefyd. Er enghraifft, ni fyddai'r Cristnogion yn ddiogel 'Oni bae Dduw a'i Angelion, / Sy'n castellu bobtu ei weision'.[101] Rhoddir diolch personol i Dduw a'i angylion: 'Di 'm castellaist i 'r dydd heddu, / A'th Angelion bach o dautu'.[102] Dywed hefyd wrth Dduw: 'Gosod wersyll oth Angelion' – eu gosod o amgylch y Cristion i'w ddiogelu.[103] Dengys Handley fod rôl angylion yn bwnc llosg ymhlith Protestaniaid ar draws Ewrop.[104] Er gwaethaf yr anghytuno ehangach, dengys cerddi'r Ficer fod credoau ynghylch eu swyddogaeth i ddiogelu credinwyr wrth iddynt gysgu yn rhan o'i syniadaeth, ac, efallai, o syniadaeth ei blwyfolion.

Roedd codi'r bore yn fyw ac yn iach ar ôl gweddïo am ddiogelwch yn destun diolch. Roedd hefyd yn dangos bod Duw wedi clywed eu gweddïau a'u hateb; o ganlyniad, roedd gan y credadun brawf fod gweddïo'n gweithio. Oherwydd hyn, gellid disgwyl ymroddiad parhaus i weddïo.[105] Ni fyddai hynny wedi golygu o reidrwydd na fyddent yn bryderus neu mewn ofn wrth fynd i gysgu'r noson ganlynol, ond byddai eu ffydd yn Nuw wedi'i chryfhau

[98] *Canwyll*, t. 256.
[99] Ibid., t. 258.
[100] Ibid., t. 122.
[101] Ibid., t. 119.
[102] Ibid., t. 253.
[103] Ibid., t. 256.
[104] Handley, *Sleep*, tt. 87–8.
[105] Am drafodaeth ar sut y câi atebion i weddïau eu dehongli ar y pryd gweler Ryrie, *Being Protestant*, tt. 119–43, yn arbennig tt. 140–3.

oherwydd iddo ateb eu gweddïau'r noson flaenorol, a dyma oedd effaith nodweddiadol profi gweddïau a oedd wedi'u hateb yn ôl Ryrie.[106]

Dylid diolch i Dduw ben bore am eu cadw. Mae nifer o'r cerddi sydd dan sylw yma'n mynegi diolch i Dduw am ddiogelwch ac mae hynny'n destun cân yn y bore. Er enghraifft, mae 'Diolch foreuol pan ddihuner gynta' yn cloi â diolch i'r 'Drindod, / Sydd mor ddiflin yn fy ngwarchod'.[107] Dylai'r credadun efelychu creaduriaid y greadigaeth sydd hefyd yn rhoi diolch i Dduw, fel y '*Rhobin bâch …, / A gaan ir Arglwydd psalm y bore*' am ei gadw'r nos rhag niwed.[108] Oherwydd mai Duw sydd yn rhoi diogelwch yn y nos, dywed y Ficer y dylid diolch iddo yn y bore:

> Bendigedig a fo d'enw,
> Christ fyng Heidwad am fy nghadw;
> A gogoniant itti rodder,
> Am roi i mi 'r fâth esmwythder.[109]

## Edifarhau

Roedd y diffyg diogelwch a'r gwir bosibilrwydd o farw wrth fynd i gysgu'n ysgogi'r credadun i edifarhau bob nos. Roedd edifarhau cyn cysgu yn weithred hanfodol oherwydd nad oedd yfory'n sicr, fel y dadleua Ryrie.[110] Marw fin nos oedd un o'r ffyrdd gwaethaf o farw yn ôl meddwl y cyfnod. Roedd yn ffordd ddiarwybod o farw, fel petai; nid oedd y crediniwr yn cael y cyfle i edifarhau ac i baratoi am y bywyd nesaf.[111] Golyga hyn fod potensial i'r credadun wynebu Duw heb edifarhau am bechodau amrywiol. Gwelwn fod cyffesu pechodau ac edifarhau yn codi'n gyson yng ngherddi cwsg y Ficer fel prawf nid yn unig o arferion Protestannaidd, ond hefyd fel tystiolaeth o amlygrwydd y gred y gellid marw yn y nos a'r angen i gyffesu am bob drwg yn ddyddiol. Wrth annog edifarhau cyn cysgu adlewyrcha'r cerddi farn Handley i farwolaeth ddylanwadu ar ddefodau cwsg yn y cyfnod hwn.[112] Wrth reswm, mae cyffesu pechodau a throi oddi wrthynt yn ysgafnhau enaid y crediniwr, wrth i Dduw faddau'r pechodau penodol; gellid dadlau y byddai hynny yn ei dro yn hwyluso cysgu. Rhaid cofio mai cerddi a gweddïau ar gyfer Cristnogion yw'r rhain gan y Ficer; nid edifarhau yw'r nod, sef y cam hanfodol hwnnw yn y bywyd Cristnogol – mae'r cerddi cwsg ar gyfer Cristnogion sydd eisoes wedi'u haileni. Yn hytrach, mae edifarhau yn arfer cyson gan y cadwedig wrth iddynt ddod yn fwyfwy ymwybodol o'u drygioni a'u hawydd i blesio

[106] Ibid., t. 141.
[107] *Canwyll*, t. 122.
[108] Ibid., t. 121.
[109] Ibid., t. 122.
[110] Ryrie, 'Sleeping, Waking and Dreaming', t. 75.
[111] Ralph Houlbrooke (1998), *Death, Religion and the Family in England 1480–1750* (Oxford: Oxford University Press). Gweler hefyd Ryrie, *Being Protestant*, tt. 460–8.
[112] Handley, *Sleep*, t. 82. Gweler hefyd Laura Sangha (2012), *Angels and Belief in England, 1480–1700* (London: Pickering & Chatto).

Duw. Mewn egwyddor, gall yr edifeiriol gysgu'n dawel ac yn hyderus oherwydd eu ffydd. Wrth gwrs, gallai'r edifeiriol hefyd gael trafferth cysgu, ac mae nifer o gerddi'r Ficer yn dangos hynny. Ond nid oedd rhaid iddynt – fel y dywed y Ficer, roedd yr anedifeiriol mewn perygl difrifol bob nos.

Mae edifarhau'n bwysig yn y gerdd 'Pethau iw hystyried, a'i harferu pan ddêl y nôs'.[113] Y tebygolrwydd o farw yn ystod y nos yw'r prif reswm dros edifarhau cyn mynd i gysgu. Mae'r Ficer yn annog, neu efallai'n gorchymyn i'w gynulleidfa edifarhau cyn cysgu fel a ganlyn:

> Na ddôs i gysgu yn dy bechod,
> Rhag mynd o'th gwsc ger bron y Drindod:
> Ac na slwmbred dy ddau amrant,
> Nes ymbilio am faddeuant
>
> Y dyn y fentro fynd i gysgu,
> Yn ei bechod cyn difaru,
> Mae e'n mentro mwy o lawer,
> Nâ phe cysgei gydâ gwiber.[114]

Dywed fod cysgu heb edifarhau yn beryglus, ac mewn gwirionedd yn fwy peryglus nag unrhyw beryglon bydol, gan gynnwys gwiberod.

Dywed y Ficer fod rhaid edifarhau bob nos cyn mynd i gysgu, fel y pwysleisir yn y pennill canlynol:

> Gwachel fynd un nôs i gysgu,
> Yn dy bechod nes difaru,
> A chymmodi â'r Duw cyfion,
> Cyn y cayech dy olygon.[115]

Defnyddir iaith y gyfraith wrth ddwyn i gof sut y mae Duw yn barnu pechaduriaid, a'i ddarlunio fel barnwr mewn llys barn. Yn debyg i fod mewn llys, rhaid bod yn barod wrth fynd i gysgu:

> Rhag dy fynd ir bar i'th farnu,
> Genol nos tra fech yn cysgu,
> Gwachel fynd fel dyn diwybod,
> Byth i'th wely yn amharod.[116]

---

113 *Canwyll*, tt. 251–3.
114 Ibid., t. 253.
115 Ibid., t. 251.
116 Ibid., t. 253.

Nid yw'r Ficer yn rhestru pechodau penodol yn y cerddi. Mae'r sawl sy'n trin y cerddi'n meddu ar ryddid i ychwanegu eu pechodau hwy yn ôl y galw, ac i edifarhau amdanynt. Nid y manylion sy'n bwysig, ond y weithred sylfaenol a dyddiol o edifarhau. Gan hynny, dengys y Ficer y maddeuir pob pechod a gyflawnwyd gan yr edifeiriol yn ddiwahân; yn ôl y Ficer, 'Christ yw 'r iawn sydd am bob pechod'.[117]

## Casgliadau

Mae'r erthygl hon wedi dadansoddi ystyron cwsg yng ngherddi'r Ficer Rhys Prichard. Wrth wneud hynny, cysylltwyd y cerddi hyn â thrafodaethau ym maes y dyniaethau meddygol ym Mhrydain y cyfnod modern cynnar a thrafodaethau ynghylch gweddïo a bywydau beunyddiol Protestaniaid Prydain. Mae cerddi'r Ficer yn awgrymu bod codi ganol nos yn arfer naturiol a chyffredin; yn hyn o beth maent yn gonfensiynol ac yn adlewyrchu arferion cwsg yn Lloegr a'r Gorllewin. Dengys cerddi cwsg y Ficer hanfodion cysgu'n dda. Yr ateb oedd troi at Dduw, yn arbennig mewn gweddi, gan gydnabod bod noson dda o gwsg yn rhodd ganddo Ef. Cafodd y cysyniad o dduwioldeb cwsg ei gymhwyso i'r Gymraeg wrth ddadansoddi'r cerddi a dangos bod yr un amcanion yn nodweddu cerddi cwsg y Ficer Prichard. Wrth wneud hyn cynigiwyd fframwaith i ysgolheigion eraill ystyried sut roedd pobl yng Nghymru yn paratoi i fynd i gysgu ac ystyried yr elfennau ysbrydol, defosiynol a beunyddiol. Gwelwn fod defodau cwsg, a pharatoi ar gyfer cwsg, yn annatod glwm wrth beryglon y nos, ofn marwolaeth a'r angen i baratoi ar gyfer angau. O ganlyniad, roedd rhaid paratoi am y gwely yn ysbrydol bwrpasol. Dywed y Ficer y dylid gweddïo, myfyrio ar y Beibl a'i ddarllen, sef prif elfennau duwioldeb cwsg. Ymhlith prif nodweddion y cerddi mae cais am ddiogelwch, yn arbennig diogelwch bydol. Dadleuwyd y gellid dehongli rhai o'r geiriau am deimladau ynghylch diogelwch yng nghyd-destun iechyd meddwl; gobeithir y daw trafodaethau pellach ar y pwnc. Oherwydd y teimladau hynny gofynnwyd i Dduw ddiogelu'r Cristion yn gyson. Mae edifarhau yn nodwedd amlwg o'r cerddi hefyd. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch codi'n fore, dengys y Ficer y dylai ei gynulleidfa edifarhau bob nos, rhag ofn iddynt farw heb gyffesu eu pechodau.

Astudiaeth achos yw hon yn canolbwyntio ar waith un bardd. Mae'r sgôp yn rhy gyfyng i ddatgan yn hyderus ynghylch arferion ehangach yng Nghymru – man cychwyn yw'r erthygl hon. Wedi dweud hynny, mae poblogrwydd cerddi'r Ficer yn awgrymu y byddai arferion cwsg rhai pobl wedi cael eu hadlewyrchu ynddynt, bid siŵr. Yr hyn y mae'r erthygl hon wedi'i ddangos yw bod cwsg yn wirioneddol bwysig i'r Ficer, a bod iddo ddimensiwn ysbrydol cryf, ac oherwydd hyn ysgrifennodd sawl cerdd fel y gallai'r Cymry eu canu neu eu defnyddio er mwyn paratoi am beth bynnag oedd i ddod.

[117] Ibid., t. 40.